Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin y Fenni**

**Ysgol Y Fenni**
**St. Davids Road**
**Y Fenni**
**NP7 6HF**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

07/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Fenni

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br><br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin y Fenni |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy – lleoedd a ariennir |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu’r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yng ngofal y staff. Caiff y plant gyfleoedd ardderchog ar gyfer chwarae a dysgu ac maent yn datblygu eu hannibyniaeth trwy ystod o brofiadau a chwarae o ansawdd uchel.

Mae’r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad plant trwy ystod eang o weithgareddau wedi eu cynllunio sy'n cael eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân ac yn groesawgar. Mae ystod eang o deganau a chyfarpar y tu mewn a thu allan i’r adeilad yn hyrwyddo chwarae'r plant yn dda iawn. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol yn gyson.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llawn cymhelliant ac yn ymroddedig i gyflawni gofal plant o ansawdd uchel. Maent yn annog ac yn cefnogi'r staff. Mae polisïau a chofnodion gofynnol ar waith. Caiff y rhieni eu hysbysu a'u diweddaru'n dda am brofiadau a datblygiad eu plentyn.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad yn fawr. Maent wedi ymgartrefu ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae gan y plant gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis eu gweithgareddau eu hunain ac yn symud o gwmpas yn rhydd yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae mapio meddwl yn cael ei wneud yn effeithiol iawn gyda'r plant hŷn er mwyn casglu gwybodaeth am eu diddordebau a'u syniadau i lywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ochr yn ochr neu gyda'i gilydd. Cawsom groeso cynnes gan y plant ac roeddent yn llawn cyffro i sgwrsio a dangos eu teganau. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais iawn ac yn mwynhau derbyn canmoliaeth gan y staff am eu cwrteisi ac am fod yn garedig a chymwynasgar. Mae'r lleoliad yn darparu awyrgylch tawel a hamddenol.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn. Maent yn elwa ar amrywiaeth ragorol o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol o ran oedran yn y ddwy ystafell. Mae'r plant yn cael eu cymell yn fawr i ddilyn eu diddordebau eu hunain a chynnal eu chwarae am gyfnodau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Maent yn datblygu cyfeillgarwch ac yn llunio ymlyniad cryf â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Gwelsom y plant yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae, gan eu galw yn ôl eu henwau. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau arferol, yn hyderus wrth archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac maent yn gwybod ble mae'r adnoddau a sut i gael gafael arnynt yn annibynnol.

Mae plant yn datblygu ystod eang o sgiliau wrth iddynt chwarae. Cânt lawer o gyfleoedd i ddod yn annibynnol, gan gynnwys arllwys eu diodydd amser byrbryd, tacluso ar ôl gweithgareddau a hongian eu heiddo ar begiau lefel isel.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Cânt hyfforddiant diogelu rheolaidd ac maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol os oes ganddynt bryderon am blentyn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus yn adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth. Caiff cofnodion damweiniau a digwyddiadau eu cwblhau'n dda a'u llofnodi gan rieni; fodd bynnag nid yw cofnodion anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu llofnodi gan rieni. Mae ystod eang o fwydydd iach ar gael yn ystod amser byrbryd ac mae dŵr yfed ar gael bob amser. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom blatiau byrbryd yn cael eu gosod ar y llawr gan y staff oherwydd diffyg lle. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol ac fe wnaeth newid yr arfer hwn ar unwaith. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd sy'n sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant. Maent yn amyneddgar ac yn feithringar, sy'n golygu bod y plant yn mynd atynt yn hawdd. Mae'r staff yn cydweithio'n dda i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan gadw eu hoedran a'u cam datblygu mewn cof. Mae polisi rheoli ymddygiad cynhwysfawr ar waith sy'n hyrwyddo strategaethau cadarnhaol. Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn gweithredu hyn yn fedrus, gan ddefnyddio dulliau tynnu sylw a llawer o iaith gadarnhaol i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Yn ogystal, mae’r staff yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaethau allanol i geisio cymorth i ddiwallu anghenion plant unigol.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn arsylwi'n rheolaidd ar chwarae a dysgu’r plant i olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn llywio’r gwaith o gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol i hyrwyddo camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Caiff y rhieni ddiweddariadau rheolaidd am gynnydd a datblygiad eu plant. Clywsom ddefnydd da o’r Gymraeg drwy gydol yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae'r amgylchedd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae'r fynedfa yn ddiogel; mae drysau clo yn sicrhau mynediad sydd wedi ei awdurdodi yn unig. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel oherwydd bod y rheolwyr yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd ar gyfer pob rhan o'r lleoliad a phan fyddant yn mynd ar wibdaith. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol cynhwysfawr o'r amgylcheddau dan do ac awyr agored i nodi a dileu unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ymarferion tân rheolaidd ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Caiff y rhain eu hamseru, eu dyddio a'u gwerthuso'n ofalus. Mae'r cofrestrau sy'n cofnodi pan fydd y staff a'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad wedi'u cwblhau'n dda.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar iawn ac yn addas i blant. Trefnir yr ystafelloedd i hyrwyddo pob maes o ddatblygiad y plant, gydag ystod ragorol o adnoddau, gan gynnwys adnoddau amlddiwylliannol, a llyfrau. Gall plant gael mynediad i'r holl gyfarpar yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae cyfarpar ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cam datblygu yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a darganfyddiad. Mae arddangosfeydd wal yn cynnwys gwaith celf y plant, sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae gan yr ardal awyr agored ystod eang o gyfarpar addas. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn yr awyr agored ac yn dangos brwdfrydedd mawr, gan symud o gwmpas yr ardal yn rhwydd.

Mae'r teganau ac offer yn cael eu glanhau yn rheolaidd, ac mae'r adnoddau o ansawdd rhagorol. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, storfa deganau lefel isel a phegiau cotiau unigol â'u henwau arnynt ar gyfer eu heiddo. Mae nifer addas o doiledau i'r plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth plant wrth olchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus, yn brofiadol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth berthnasol i rieni ynglŷn â'r gwasanaeth fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'i addasrwydd ar gyfer eu plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae cytundebau'r plant a slipiau caniatâd wedi'u cwblhau'n dda.

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar leoliad sy'n ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae system effeithiol ar waith i sicrhau bod hunanwerthuso ffurfiol o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn flynyddol. Mae'r arweinwyr yn gweithredu ar adborth a ddarperir gan asiantaethau allanol fel Dechrau'n Deg. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er na dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal amgylchedd trefnus ac mae'n hawdd cyrchu'r holl ddogfennau sy'n cael eu cadw'n drefnus iawn. Mae ffeiliau staff o ansawdd da ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol effeithiol, sy'n rhoi cyfle i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan yr holl staff hyfforddiant gorfodol cyfredol ac mae cyfleoedd da i staff dderbyn hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm rheoli yn gefnogol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu ymddiriedaeth, cysylltiadau cyfathrebu da a phartneriaeth gref gyda'r rhieni a'r gymuned leol. Mae'r staff yn defnyddio ap ar-lein i rannu lluniau a gwybodaeth â'r rhieni. Mae'r staff yn mynd â'r plant ar wibdeithiau yn y gymuned yn rheolaidd, gan gynnwys y parc a siopau lleol i brynu ffrwythau ar gyfer eu byrbryd. Mae'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod cofnodion anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu llofnodi gan y rhieni

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/08/2022